**Yr amserlen ar gyfer ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)**

Ar 25 Ionawr 2010, cyflwynwyd Mesur arfaethedig y Llywodraeth, y 'Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)', yn y Cynulliad.

Ar 19 Ionawr 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 er mwyn iddo ystyried a chyflwyno adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 7 Mai 2010.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Ionawr 2010**